## Rhybudd o Benderfyniadau'r o Gyfarfod Rhithiol o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2022

**Yn Bresennol** : Y Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghroydd R Dew, John Griffith, Glyn Haynes, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R. Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE FRAgS, Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Margaret Murley Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams

**Ymddiheuriadau** : Y Cynghorwyr A M Jones, Richard Owain Jones, Bryan Owen a Nicola Roberts

**Hefyd yn Bresenol** : Dim,

(11.00 o'r glo - 11.25 o'r gloch yb)

| RHIF YR EITEM AR PWNC | **1. Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb. |

| RHIF YR EITEM AR PWNC | **2. I dderbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd y Cyngor neu'r Prif Weithredwr** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni dderbyniwyd unrhyw gyhoeddiadau. |

| RHIF YR EITEM AR PWNC | **3. Protocol Cyn-Etholiad ar gyfer Gweithwyr ac Aelodau Etholedig - Etholiadau Llywodraeth Leol- 5 Mai, 2022** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd y Protocol Cyn Etholiad ar gyfer Gweithwyr ac Aelodau Etholedig ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol – 5 Mai, 2022 i'r Cyngor er gwybodaeth. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **4. Newidiadau i'r Cyfansoddiad** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn:-**<br><br>• **Mabwysiadu'r newidiadau i'r Cyfansoddiad fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad;**<br>• **Cytuno i'r newidiadau a argymhellir a dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro wneud y newidiadau i'r Cyfansoddiad fel yr argymhellir ynghyd ag unrhyw newidiadau atodol neu ganlyniadol sy'n codi.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **5. Penodi Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:-**<br><br>• **Penodi'r tri ymgeisydd yn aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;**<br>• **Cytuno i benodi'r aelod lleyg presennol am ail dymor o bum mlynedd.** |